
GWERS 2

MYND I'R AFAEL Â THLODI

Ynglŷn â'r wers hon

Bydd y disgyblion yn dysgu am waith cyrff anllywodraethol (NGO) a'r gwahanol rolau maent yn eu chwarae wrth fynd i'r afael â thlodi, e.e. ymateb i argyfyngau, gwaith datblygu, ymgyrchu neu wneud cyfuniad o'r tri. Byddant wedyn yn dechrau archwilio pa mor effeithiol mae'r gwaith hwn ar gyfer y rhai sy'n byw yn Deep Sea yn Kenya.

Amcanion dysgu

Bydd y disgyblion yn gallu:

- archwilio rôl cyrff anllywodraethol;
- nodi a gwerthuso'r gwahanol gamau gweithredu mae NGOs yn eu cymryd;
- nodi camau gweithredu sydd fwyaf tebygol o achosi newid cadarnhaol yn Deep Sea.

Dysgu blaenorol

Mae'r wers hon yn dilyn Gwers 1 Tlodi a Hawliau Dynol yn syth. Efallai bydd dysgu blaenorol hefyd yn cynnwys Nodau Datblygu'r Mileniwm (MDG). Nid oes sôn amdanynt yn y wers hon ond maent yn rhan bwysig o ddysgu am fynd i'r afael â thlodi. Gweler www.un.org/millenniumgoals.

Adnoddau sydd eu hangen

Taflen adnoddau 1 – *Cardiau sefyllfa* (torrwch i fyny, un sefyllfa ar gyfer pob pâr)

Taflen waith 1 – *Cyfarwyddiadau ar rôl cyrff anllywodraethol* (un ar gyfer pob pâr)

Taflen waith 2 – *Cynllun gweithredu ar gyfer cyrff anllywodraethol* (un ar gyfer pob pâr)

Gwers 1, taflen waith 2 – *Astudiaeth achos ar Deep Sea*.

Gwers 1, taflen adnoddau 3 – *Nodiadau i'r athrawon ar Deep Sea*

PowerPoint – *Tlodi a hawliau dynol* – Gwers 2

Copiau mawr o bob amcan dysgu (i'w harddangos yn ystod y cyfarfod llawn ar y diwedd)

Gwybodaeth gefndir ar y clipiau ffilm

Efallai bydd disgyblion yn gofyn am y gwahaniaethau rhwng y grwpiau canlynol:

Corff anllywodraethol (NGO) – gellir ei ddefnyddio fel term ambarél i gynnwys carfannau pwyso ac elusennau. Maent yn annibynnol ar y llywodraeth, maent yn cyflwyno pryderon dinasyddion i lywodraethau ac yn darparu gwasanaethau i geisio achosi newid ar ystod o faterion.

Carfan bwyso – maent yn ceisio dylanwadu ar bolisi cyhoeddus er budd achos penodol.

Elusen – sefydlwyd ar gyfer rhoi arian neu gymorth arall yn wirfoddol i'r rhai sydd mewn angen.

Gwaith dilynol

Gallai disgyblion archwilio gwaith gwahanol NGOs a'u gwaith sydd wedi'i anelu at fynd i'r afael â thlodi cyn symud ymlaen at Wers 3, ee Oxfam, Cymorth Cristnogol, Achub y Plant, UNICEF.

GWERS 2 MYND I'R AFAEL Â THLODI

Cynllun gwrs

Amser	Cyflwyniad	Adnoddau
0-10 munud	Dangoswch y sleid gychwynnol gyda lluniau i'r disgyblion. Mewn parau, gofynnwch iddynt dreulio tair neu bedair munud yn tanio syniadau am y cwestiynau: Beth sy'n digwydd ym mhob delwedd? Pa mor effeithiol rydych chi'n meddwl yw'r camau gweithredu hyn o ran mynd i'r afael â thlodi? Mae'r ffotograffau'n dangos tri gwahanol fath o gam gweithredu ar dlodi. - Ymateb i argyfyngau – cymorth bwyd a lloches i bobl a ddadleolwyd yn Afghanistan. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys darparu arian ac adnoddau megis pobl, bwyd, lloches, gofal iechyd ar gyfer gwledydd a phobl y mae trychinebau naturiol, gwrthdaro ac epidemigion yn cael effaith arnynt. - Gwaith datblygu hirdymor – cyflenwad dŵr glân, ailadeiladu cartrefi, darpariaeth gofal iechyd. - Ymgychu – Make Poverty History. Daeth yr ymgyrch wrthdlodi fwyaf erioed ynghyd yn 2005. Noder bod llawer o gyrff anllwyodraethol yn gwneud cyfuniad Trafodwch yr amcanion dysgu. Mae sleid 5 yn dangos pa mor real yw tldi o gwmpas y byd. Trafodwch fel dosbarth.	Gwers 2 Sleidiau PowerPoint 1-5
Gweithgareddau		
10-15 munud	Cyrff anllwyodraethol (NGOs) Defnyddiwch sleidiau 6 i 9 i ddatblygu gwybodaeth am NGOs. Cyn dangos sleidiau 7 i 9, gofynnwch i'r disgyblion a allant gynnig rhai geiriau allweddol neu ddiffiniadau ar gyfer ymateb i argyfyngau, gwaith datblygu ac ymgyrchu. Gall ymgyrchu gynnwys lloio llywodraethau, ysgrifennu llythyrau, deisebau, protestiadau a gwrthdystiadau.	Sleidiau PowerPoint 6-9
15-35 munud	Rôl NGOs Gofynnwch i'r disgyblion ffurfio parau. Rhwng daflen <i>Cyfarwyddiadau ar rôl NGOs</i> (taflen waith 1) ac un cerdyn sefyllfa (wedi'i dorri o daflen adnoddau 1) i bob pâr. Mae angen i'r disgyblion drafod eu sefyllfa a'r cwestiynau allweddol. Nawr dosbarthwch y ddogfen <i>Cynllun gweithredu ar gyfer NGOs</i> (taflen waith 2) i bob pâr. Gofynnwch iddynt lunio cynllun gweithredu ar gyfer y math o gymorth gan gorff anllwyodraethol mae ar eu sefyllfa/cymuned angen. Dylent gynnwys amserlenni, h.y. camau gweithredu y mae angen i ddigwydd: - nawr (tymor byr); - ymhen 6 i 12 mis (tymor canolog); - dros y 2 i 5 mlynedd nesaf (tymor hirach). Yna dylai pob pâr o ddisgyblion ymuno â thri phâr arall (â sefyllfeydd gwahanol), ac yn eu tro, cyflwyno eu sefyllfa a'u syniadau ar gyfer cynlluniau gweithredu i weddill y grŵp. Os yw amser yn brin, gofynnwch i barau ymuno ag un arall. Wedyn dewch â'r dosbarth cyfan yn ôl ynghyd a gofynnwch i wahanol barau neu grwpiau roi adborth ar bob un o'r pedair sefyllfa.	<i>Cardiau sefyllfa</i> (taflen adnoddau 1); <i>Cyfarwyddiadau ar rôl NGOs</i> (taflen waith 1) Sleid PowerPoint 10 <i>Cynllun gweithredu ar gyfer NGO</i> (taflen waith 2)
35-55 munud	Cymuned Deep Sea Dylech chi atgoffa'r disgyblion o'r astudiaeth achos ar gymuned Deep Sea a archwiliwyd yng Ngwers 1. Gan ddefnyddio eu <i>Hastudiaeth achos ar Deep Sea</i> (Gwers 1, taflen waith 2), gofynnwch i'r disgyblion (yn eu parau o hyd) i gwblhau'r golofn olaf. Bydd y disgyblion yn penderfynu'r hyn y gallai llywodraeth Kenya a sefydliadau eraill ei wneud i amddiffyn hawliau dynol trigolion cymuned Deep Sea. (A wnewch chi gyfeirio at eich <i>Nodiadau i athrawon ar Deep Sea</i> o Wers 1). Adborth gan y dosbarth.	<i>Astudiaeth achos ar Deep Sea</i> (taflen waith 2 o Wers 1) <i>Nodiadau i athrawon ar Deep Sea</i> (taflen adnoddau 3 o wers 1) Sleid PowerPoint 11
55-60 munud	Cyfarfod llawn Dylech arddangos y tri amcan dysgu ar wahân o gwmpas yr ystafell. Gofynnwch i'r disgyblion sefyll ger yr un y maent wedi dysgu fwyaf ohono. Gofynnwch iddynt esbonio eu dewis. Os nad oes neb yn sefyll ger un o'r amcanion dysgu, gofynnwch pam i greu mwy o ddysgu.	Argraffwch yr amcanion dysgu, torrwrch allan pob un a'u glynw o gwmpas yr ystafell Sleidiau PowerPoint 12-13

GWERS 2 TAFLEN ADNODDAU 1 CARDIAU SEFYLLFA



© New Zealand Government

SEFYLLFA 1 – TSUNAMI

Mae'r gymuned hon wedi cael ei tharo gan don tsunami anferth. Dychmygwch am eiliad yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar y bobl sy'n byw yma.

Pa effaith fydd y maint hwn o ddŵr yn ei gael ar y gymuned?
Beth fydd yn digwydd i'r bobl?
Beth fydd yn digwydd i'r busnesau?



© Private

SEFYLLFA 2 – SYCHDER

Mae'r gymuned hon newydd gael ei tharo gan sychder am y drydedd flwyddyn yn olynol.

Dychmygwch am eiliad yr effaith y bydd yn ei chael ar bobl sy'n byw yma.

Pa effaith fydd yn ei chael ar y bobl, yn enwedig y plant?

Pa effaith fydd yn ei chael ar blanhigion a chnydau?

Pa effaith fydd yn ei chael ar anifeiliaid?

Pa effaith fydd yn ei chael ar fusnesau lleol?



GWERS 2 **PARHAD O DAFLEN ADNODDAU 1** **CARDIAU SEFYLLFA**



© Arantxa Cedillo

SEFYLLFA 3 – DADFEDDIANNU GORFODOL

Mae aelodau'r gymuned hon newydd gael eu gorfodi i adael eu cartrefi; maent wedi cael eu dadfeddiannu Dychmygwch am eiliad yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar y bobl sy'n byw yma.

Ble bydd y bobl hyn yn mynd?

Beth fydd yn digwydd i'w busnesau?

Beth fydd yn digwydd i'w heiddo?



© Amnesty International

SEFYLLFA 4 – GWRTHDARO

Mae'r gymuned hon yng nghanol rhyfel cartref. Bu'n rhaid iddynt ffoi o'u gwlad a cheisio lloches fel ffoaduriaid mewn gwlad gyfagos. Dychmygwch am eiliad yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar y bobl sy'n byw yma.

Pa effaith a gaiff hyn ar deuluoedd?

Sut bydd y bobl yn goroesi?

Beth sydd wedi digwydd i'w cartrefi ac i'w heiddo?



GWERS 2 TAFLEN WAITH 1 CYFARWYDDIADAU AR RÔL NGOs

CYFARWYDDIADAU

Edrychwch ar y sefyllfa a roddwyd i chi. Astudiwch y llun, darllenwch y disgrifiad a thrafodwch y cwestiynau gyda'ch partner.

Darllenwch y disgrifiadau isod o wahanol fathau o waith a wneir gan NGOs. Pa fath o gymorth gan gyrff anllywodraethol y mae'r gymuned yn eich sefyllfa chi ei angen? Ysgrifennwch gynllun gweithredu gan ddefnyddio taflen waith 2. Ystyriwch graddfeydd amser gyda'ch camau gweithredu, hy camau gweithredu y mae angen iddynt ddigwydd:

- nawr (tymor byr);
- ym mhen 6 i 12 mis (tymor canolig);
- dros y 2 i 5 mlynedd (tymor hirach).

Byddwch yn barod i rannu eich syniadau ar gyfer cynlluniau gweithredu gyda pharau eraill, a chyda'r dosbarth.

Gwaith NGOs yn mynd i'r afael â thlodi

Ymateb i argyfyngau

Ar ôl argyfwng, bydd timau ymateb i argyfyngau'n helpu pobl i adfer ac i symud ymlaen yn eu bywydau. Mae'r ymglymiad fel arfer yn un tymor byr. Gall y cymorth ddod ar ffurf bwyd, loches, glanweithdra a/neu ofal meddygol. Mae'r math hwn o waith hefyd yn golygu gweithio gyda chymunedau i'w galluogi i baratoi at argyfyngau ac i ymateb iddynt eu hunain.

Gwaith datblygu

Gweithio mewn partneriaeth gyda chymunedau lleol i ddarparu cymorth tymor hirach, ee mynediad at ddŵr glân a glanweithdra (yn sicrhau y caiff dŵr yfed ei gadw ar wahân i garthion), addysg a gofal iechyd. Mae'r gwaith hwn hefyd yn golygu datrys gwrthdrawiadau o fewn cymunedau a rhyngddynt, cymorth ar gyfer busnesau lleol, hyfforddiant i wella arferion amaethyddol a helpu pobl i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau llywodraethol.

Ymgyrchu

Cwrs gweithredu trefnus i gyflawni newid, ee gweithio mewn partneriaeth gyda'r cymunedau eu hunain i newid cyfreithiau, polisiau'r llywodraeth ac arferion busnes i sicrhau bywyd gwell ar gyfer pobl o gwmpas y byd. Gall ymgyrchu olygu nodau tymor byr, tymor canolig a thymor hir. Mae ymgyrchu'n aml yn canolbwyntio ar addysg a chodi ymwybyddiaeth ac yn aml mae'n golygu lobio llywodraethau, protestio, ysgrifennu llythyrau a chodi arian.

Cyfranogiad lleol

Ar gyfer pob un o'r categorïau uchod, mae NGOs yn gweithio gyda phobl leol i sicrhau eu bod yn ymateb i anghenion y gymuned ac i rymuso pobl leol i gymryd rôl weithgar o ran gwella eu bywydau.

GWERS 2 **TAFLEN WAITH 2** **CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER NGOs**

Sefyllfa.....

Camau gweithredu tymor byr

Nawr

Camau gweithredu tymor canolig

6-12 mis

Camau gweithredu tymor hir

2-5 mlynedd